department for
culture, media
and sport

Adolygiad Digwyddiadau Darlledu-am-ddim

Ymgynghoriad

Ebrill 2009

improving
the quality
of life for all

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd i bawb drwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cefnogi'r cais am ragoriaeth, a hyrwyddo'r diwydiannau twristiaeth, creadigol a hamdden.

Cynnwys

Rhagair gan David Davies OBE 4

Cyflwyniad 5

Atodiad A: Fframwaith deddfwriaethol yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig 12

Côd Ofcom ar Chwaraeon a Digwyddiadau Rhestredig a Dynodedig Eraill 19

Atodiad B: Y rhestr ddiwygiedig o ddigwyddiadau a ddiogelir o dan Ran IV o Ddeddf Darlledu 1996 34

Rhagair gan David Davies OBE

Mae'n gryn anrhydedd i gael fy ngwahodd gan Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Andy Burnham, i arwain Panel Ymgynghorol Annibynnol i adolygu mynediad y cyhoedd i ddarlledu ar y teledu o ddigwyddiadau nodedig i gymdeithas. Mae'r holl ddigwyddiadau sydd wedi eu rhestru ar hyn o bryd yn rhai o fyd chwaraeon.

Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf o'r fath dros ddegawd yn ôl. Mae llawer wedi newid ers hynny, nid lleiaf y dirwedd gyfryngol a'r gwahanol ffyrdd y mae pobl yn gallu gwylio a chael gafael ar ddigwyddiadau o fyd chwaraeon.

Rwy'n credu y byddwch yn cytuno ei bod yn her anferth ceisio cymodi gobeithion a dyheadau sefydliadau chwaraeon, ein diwydiant darlledu a chyfryngau digymar a'r cyhoedd sy'n rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol i'r ddau i ffynnu fel ag y maent.

Ond mae'n un rydw i a'm cyd-aelodau ar y Panel, sy'n rhannu fy angerdd am chwaraeon ac yn pryderu am ei ddyfodol, yn edrych ymlaen ato gyda chryn flas. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb sylweddol a'r angen i wrando'n ofalus ar y safbwyntiau cryf, os weithiau'n rhai croes, rydym yn sicr o'u clywed.

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw eich gwahodd i rannu'ch safbwyntiau. Rydym yn gobeithio clywed oddi wrth y trawstoriad ehangaf o'n cymdeithas: y cyhoedd yn gyffredinol, dilynwyr chwaraeon gweithredol a goddefol, y rhai sy'n cymryd rhan yn, ac yn trefnu ein hamrywiaeth eang o chwaraeon, a'r darlledwyr a'r cyfryngau sy'n dod â chynifer o gampau i ni o bob cwr o'r byd.

Dylwn ychwanegu er mai dim ond digwyddiadau chwaraeon sydd wedi arfer cael eu rhestru, nid oes rhaid i argymhellion y Panel gael eu cyfyngu i'r campau hynny ac fe'ch gwahoddir i gynnig eich barn ar hyn hefyd.

Felly peidiwch â cholli'r cyfle i fynegi'ch barn. Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd ar gael i'w darllen a'i lawrlwytho o wefan y Panel (http://www.culture.gov.uk/freetoair/index.html).

Gall fersiwn symlach sy'n cynnwys y cwestiynau ymgynghorol rydym angen i chi eu hateb gael ei chwblhau ar-lein a'i e-bostio i'r Panel.

Ar y llaw arall mae tasg y Panel yn fwy cymhleth. Ond gallwch fod yn siŵr y byddwn yn ymdrechu i gael y cydbwysedd iawn rhwng buddiannau pawb yn ein hargymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Yr eiddoch yn gywir

DAVID DAVIES OBE
Cadeirydd, Panel Ymgynghorol Adolygiad Digwyddiadau Darlledu-am-ddim

Cyflwyniad

Yn ei araith ar Ddyfodol Teledu (Y Gymdeithas Deledu Frenhinol, 26 Medi 2008) cyhoeddodd Andy Burnham, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ei fwriad i sefydlu adolygiad annibynnol o ddigwyddiadau rhestredig gaiff eu darlledu am ddim yn ystod 2009. Gellir gweld testun ei araith yn llawn ar: http://www.culture.gov.uk/reference_library/minister_speeches/5483.aspx

Y Panel Ymgynghorol Annibynnol

Yna penododd yr Ysgrifennydd Gwladol David Davies fel Cadeirydd y Panel Ymgynghorol Annibynnol ar 10 Rhagfyr 2008 a naw aelod ychwanegol i'r Panel ar 21 Ionawr 2009.

Aelodau'r Panel yw:

- **Dougie Donnelly**
- **Angus Fraser**
- **Yr Athro Chris Gratton**
- **Eamonn Holmes**
- **Penny Hughes**
- **Colin Jackson**
- **Michael Pescod**
- **Nick Pollard**
- **Hope Powell**

Cafodd pob aelod o'r Panel ei benodi, yn rhinwedd eu gallu unigol a phersonol, oherwydd eu profiad, arbenigedd a'r trylwyredd deallusol y byddent yn ei gynnig i'r Adolygiad. Cawsant eu penodi hefyd oherwydd y safbwyntiau cenedlaethol ac o ran chwaraeon, darlledu a busnes y gallent eu cyfrannu, ond ni chawsant eu penodi yn unswydd i gynrychioli buddiannau chwaraeon neu ddarlledu penodol, sy'n cael eu hymgynghori'n ffurfiol fel rhan o'r broses adolygu. Cafodd y penodiadau eu gwneud hefyd i gydymffurfio â pholisïau'r Adran ar amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus.

Cylch Gorchwyl

Cylch gorchwyl y Panel yw adolygu:

- **yr egwyddor o gael rhestr;**
- **y meini prawf ar gyfer rhestru digwyddiadau; a**
- **chynnwys unrhyw restr ei hun**

Bydd y panel yn cyflwyno argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ail hanner 2009.

Yr Ymgynghoriad

Bwriad yr ymgynghoriad hwn, a fydd yn rhedeg am 12 wythnos hyd 3 Gorffennaf 2009, yw sicrhau'r safbwyntiau ehangaf posibl oddi wrth y cyhoedd, y diwydiant darlledu, cyrff llywodraethu chwaraeon a deiliaid hawliau ar y tri mater y mae'r Adolygiad yn ymdrin â nhw. Fe'u defnyddir wrth baratoi argymhellion y Panel i'r Ysgrifennydd Gwladol, sy'n gyfrifol am y penderfyniadau terfynol, yn amodol ar ymgynghoriad statudol pellach â'r awdurdodau darlledu a'r deiliaid hawliau gaiff eu heffeithio.

Bydd y Panel hefyd yn cynnal digwyddiadau ym mhob un o'r Gwledydd Cartref ac yn cynnal ymchwil grwpiau ffocws.

Mae'r ddogfen ymgynghorol hon ar gael mewn copi caled os gwneir cais amdano ac ar-lein (gweler isod).

Dylid anfon argymhellion erbyn 3 Gorffennaf 2009 (fan bellaf) at:

David Patterson
Yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
5ed Llawr
2-4 Cockspur Street
Llundain SW1Y 5DH

neu i gyfeiriad e-bost yr Adolygiad – freetoairevents@culture.gov.uk

Gellir hefyd gwblhau'r cwestiynau a osodir yn y ddogfen hon ar-lein yn http://www.culture.gov.uk/freetoair/index.html

Gallwn hefyd ddarparu dogfennau i gyfarfod anghenion penodol pobl ag anableddau. Os oes angen help arnoch, anfonwch e-bost at y Tîm Adolygu yn freetoairevents@culture.gov.uk, neu ffoniwch 020 7211 6200.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei arwain gan Gôd Ymarfer ar Ymgynghori'r Llywodraeth sydd ar gael yn: http://www.berr.gov.uk/files/file47158.pdf

Gofynnir i ymatebwyr nodi y gall yr holl wybodaeth mewn ymatebion, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael eu cyhoeddi neu eu datgelu dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Ni ellir gwarantu cyfrinachedd i unrhyw ymatebwyr, a dim ond os caiff ei ystyried yn addas dan y ddeddfwriaeth y bydd hyn yn bosibl.

Bydd crynodeb o ymatebion yn cael eu cyhoeddi ar ôl y dyddiad cau.

Caiff sylw'r ymatebwyr ei dynnu hefyd at wefan yr Adolygiad lle mae gwybodaeth gefndir pellach ar gael: www.culture.gov.uk/freetoair/index.html

Cefndir

O dan gyfraith y Gymuned Ewropeaidd gall Aelod-wladwriaethau, petaent yn dewis hynny, lunio deddfwriaeth sy'n caniatáu i Aelod-wladwriaeth gynnal a gwarchod rhestr o chwaraeon neu ddigwyddiadau eraill sy'n cael eu hystyried gan yr Aelod-wladwriaeth honno o bwysigrwydd sylweddol i gymdeithas ac a ddylai fod ar gael trwy eu darlledu am ddim i gymaint o'r boblogaeth ag sy'n bosibl. Mae darlledu am ddim yn golygu nad oes raid talu mwy na'r ffi drwydded deledu arferol a chost cyfarpar derbyn i dderbyn y rhaglenni, a bod y darllediad yn gallu cyrraedd o leiaf 95% o boblogaeth y DU. Ar hyn o bryd dim ond y BBC, ITV, Sianel 4 a Sianel 5 sydd â'r cyrhaeddiad cynulleidfa hwnnw am ddim.

Mae pob Aelod-wladwriaeth yn gyfrifol am bennu'r amodau mae'n seilio'i restr arnynt a'r meini prawf y mae'n eu cymhwyso wrth benderfynu beth sydd o'r pwysigrwydd pennaf i gymdeithas.

Dylai'r ddeddfwriaeth ac unrhyw restr a grëir oddi tano gael ei wirio gan y Comisiwn. Unwaith y bydd hyn wedi ei wneud mae cyfraith y Gymuned Ewropeaidd yn dynodi bod rhaid i bob Aelod-wladwriaeth sicrhau nad yw darlledwyr sy'n gweithredu oddi fewn i'w hawdurdodaeth yn tanseilio rhestr Aelod-wladwriaeth arall.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i restr y DU wedi ei gynnwys yn isadrannau 97 i 104 o Ddeddf Darlledu 1996. Caiff hyn ei atodi gan gôd a luniwyd gan Ofcom[1] dan y darpariaethau hyn. Mae deddf berthnasol y Gymuned Ewropeaidd yn cael ei chynnwys yn Erthygl 3j o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweled. Mae copïau o'r ffynonellau hyn i'w cael yn Atodiad A ac ar wefan yr Adolygiad.

Hanes Rhestru

Cafodd y rhestr gyntaf ei llunio ym 1956 rhwng y BBC a'r Awdurdod Darlledu Annibynnol ar y pryd. Cafodd y rhestr ei hadolygu ymhellach ym 1984, 1989 ac ym 1991, a chafodd ei hadolygu am y tro olaf ym 1998.

Adolygiad 1998 oedd y cyntaf o dan amodau Deddf Darlledu 1996 ac roedd yn rhagflaenydd i'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweled, a'r cyntaf i gael ei lunio ar sail meini prawf tryloyw a chyhoeddedig. Mae'r trefniadau cyfredol a'r meini prawf y maent wedi eu seilio arnynt yn Atodiad B. Mae digwyddiadau wedi eu categoreiddio un ai fel digwyddiadau Rhestr A neu Restr B. Mae Rhestr A yn ceisio diogelu darlledu byw, ac mae Rhestr B am ddiogelu darllediadau gohiriedig neu 'uchafbwyntiau'.

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi cydnabyddiaeth statudol ffurfiol i restri A a B trwy weithredu'r rhannau nas gweithredwyd o adrannau 299 a 300 o Ddeddf Gyfathrebu 2003. Mae'r rhain yn diwygio adrannau 97 a 99 o Ddeddf Darlledu 1996.

Hyd yn hyn dim ond digwyddiadau chwaraeon y mae'r DU wedi'u rhestru, sy'n adlewyrchu'r dreftadaeth gref mewn chwaraeon. Ond gellir rhestru digwyddiadau heblaw chwaraeon hefyd, ac mae rhai gwledydd Ewropeaidd yn cynnwys y fath ddigwyddiadau heblaw chwaraeon yn eu rhestrau; er enghraifft, y Ddawns Opera Fienna yn Awstria, y Gystadleuaeth Gerdd y Frenhines Elisabeth yng Ngwlad Belg a Gŵyl Gerddoriaeth Eidalaidd San Remo yn yr Eidal.

Mae'n bwysig nodi nad oes yn rhaid i ddigwyddiad fod o bwysigrwydd mawr i'r cyfan o'r DU i gael ei ystyried ar gyfer ei restru. Mae'n ddigon ei fod o bwysigrwydd arwyddocaol i un o'r gwledydd a gellir ei restru ar sail genedlaethol. Dyma'r rheswm pam fod Rownd Derfynol Cwpan FA'r Alban yn cael ei rhestru yn yr Alban yn unig. Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw rhestru digwyddiad ynddo'i hun yn ddigon i warantu y caiff ei fwynhau'n fyw neu mewn darllediad wedi ei ohirio mewn darllediadau am ddim. Gellir rhestru digwyddiad ond ni ellir gorfodi unrhyw un i werthu ei hawliau yn ei gylch, ac yn yr un modd ni ellir gorfodi darlledwr i'w prynu a/neu ddarlledu'r digwyddiad. Yn olaf dylid nodi bod hawliau i rai digwyddiadau'n cael eu gwerthu ymlaen llaw. Yn yr achosion hynny, efallai na fydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau rhestru a allai fod o ganlyniad i'r Adolygiad hwn yn cael eu gwireddu ar eu hunion ac y byddai'n rhaid aros nes i'r hawliau gael eu trafod nesaf.

Mae'r Côd Ymarfer a weithredir gan Ofcom yn rhoi grym ymarferol i ddeddfwriaeth y DU. O ran rhestr A mae'n disgwyl bod yr hawliau i ddarlledu digwyddiad rhestredig yn

---

[1] Ofcom yw'r rheolydd annibynnol a'r awdurdod cystadlaethau ar gyfer diwydiannau cyfathrebu'r DU, gyda chyfrifoldebau dros wasanaethau teledu, radio, telethrebu a chyfathrebu diwifr.

cael eu cynnig ar werth ar amodau teg a rhesymol i'r holl ddarlledwyr ac ni ellir eu cynnig ar sail neilltuedig. Os oes darlledwr nad yw'n darlledu am ddim er hynny'n prynu hawliau neilltuedig, er enghraifft oherwydd nad oedd darlledwyr sy'n cynnig darllediadau am ddim wedi gwneud cynnig amdanynt, yna rhaid iddo sicrhau caniatâd Ofcom cyn y gall ddangos y digwyddiad yn fyw. Mae gweithdrefn debyg yn gymwys i restr B sy'n delio ag uchafbwyntiau a darllediadau wedi eu gohirio.

Y tu allan i'r amddiffyniad statudol a gynigir gan y trefniadau digwyddiadau rhestredig, mae'r Cyngor Canolog ar gyfer Hamdden Gorfforol (CCPR) wedi datblygu Côd Ymarfer Gwirfoddol ar gyfer perchnogion hawliau mewn perthynas â darlledu digwyddiadau o bwys.

Cafodd y Côd gwreiddiol ei gyhoeddi ym 1996, ond ers hynny mae wedi cael ei ddiweddaru yng ngoleuni datblygiadau mewn technoleg a therminoleg. Cytunwyd ar Gôd diwygiedig ym 2008. Mae'r rhai a arwyddodd y côd - sy'n cynnwys, ymhlith eraill, y Gymdeithas Bêl-droed, Uwch Gynghrair y Gymdeithas Bêl-droed, Bwrdd Criced Lloegr a Chymru a'r 'All England Lawn Tennis Club' a'r Gymdeithas Tenis Lawnt - wedi ymrwymo i sicrhau bod darllediadau teledu o'u holl brif ddigwyddiadau chwaraeon sydd dan eu rheolaeth yn gyffredinol ar gael ym Mhrydain trwy ddarllediadau teledu am ddim (yn fyw neu wedi eu recordio), a bod o leiaf 5% o'r cyllid a gynhyrchir drwy werthu hawliau darlledu yn cael ei ail-fuddsoddi er mwyn datblygu eu chwaraeon ymhellach. Mae cydymffurfiad y rhai sydd wedi cytuno â'r egwyddorion hyn yn cael eu harchwilio gan Bwyllgor Monitro Darllediadau Chwaraeon y Cyngor Canolog ar gyfer Hamdden Gorfforol, sydd â Chadeirydd annibynnol ac sydd wedi ei ffurfio o gynrychiolwyr sydd â rhan, cynrychiolwyr y Cyngor Canolog ar gyfer Hamdden Gorfforol a Chwaraeon y DU a nifer o aelodau annibynnol.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Côd Gwirfoddol oddi wrth y Cyngor Canolog ar gyfer Hamdden Gorfforol. Mae manylion ar gael yn www.ccpr.org.uk.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Mae'r ddogfen ymgynghorol yn gofyn yn awr am sylwadau ar y tri mater mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gofyn i'r Panel Ymgynghorol eu hystyried. Y materion hyn yw:

- a ddylai'r rhestru barhau;
- a yw'r meini prawf presennol yn gymwys neu a oes angen eu hadolygu; ac
- a ddylai bod yna unrhyw newidiadau i'r digwyddiadau a restrir ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys a ddylai'r gwahaniaethau rhwng darllediadau am ddim byw a rhai gohiriedig barhau.

A Ddylai Rhestru Barhau?

Nid oes unrhyw ymrwymiad i restru digwyddiadau. Mae'n hwylustod o dan gyfraith y Gymuned Ewropeaidd y gall Aelod-wladwriaethau fanteisio arno. Nid yw pob gwlad yn dewis rhestru; mae naw, gan gynnwys y DU, wedi gwneud hynny.

C1. Ydych chi n meddwl y dylai r DU barhau i ddiogelu digwyddiadau penodol o bwys trwy ddarllediadau byw neu ohiriedig ar wasanaeth teledu am ddim? Rhowch reswm am eich ateb.

Mae'r trefniadau presennol yn cynnwys digwyddiadau chwaraeon yn unig, ond mae'r Panel yn barod i ystyried awgrymiadau ynglŷn â chynnwys digwyddiadau eraill.

C2. Ydych chi n meddwl y dylid rhestru digwyddiadau eraill, nid chwaraeon yn unig? Os felly, rhowch eich rheswm. Cewch gyfle i awgrymu digwyddiadau addas yn nes ymlaen yn y ddogfen ymgynghorol hon ac nid oes angen i chi wneud hynny nawr.

A yw'r meini prawf cyfredol yn rai cywir?

Mae deddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd yn ganiataol a hefyd mae'n rhoi cryn fesur o ddisgresiwn i Aelod-wladwriaethau ynghylch sut y maent yn dehongli digwyddiad o bwysigrwydd arwyddocaol i gymdeithas.

Ym 1998 bu Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar sut y dylai weithredu, yn y cyd-destun diwylliannol yn y DU, ar y syniad o ddigwyddiad sy'n bwysig i gymdeithas.

Er mwyn cael ei ystyried roedd yn rhaid i'r digwyddiad fodloni'r prawf meini prawf hanfodol, sef:

- bod i'r digwyddiad gyseiniant cenedlaethol arbennig, nid arwyddocâd i'r rhai sy'n arfer dilyn y gamp dan sylw yn unig; mae'n ddigwyddiad sy'n uno'r genedl, pwynt pwysig i bawb ar y calendr cenedlaethol.

Yng nghyd-destun chwaraeon mae'r fath ddigwyddiad yn debygol o ddisgyn i mewn i un neu ddau o'r categorïau canlynol:

- mae'n ddigwyddiad rhyngwladol o bwys yn y gamp;
- mae'n cynnwys y tîm cenedlaethol neu gynrychiolwyr cenedlaethol yn y gamp dan sylw.

C3. Ydych chi n cytuno y dylai hyn barhau n brawf meini prawf hanfodol? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch pam ac eglurwch beth rydych chi n ei ystyried yn faen prawf hanfodol yng nghyd destun chwaraeon?

Mae'r maen prawf hanfodol ar hyn o bryd wrth gwrs yn cael ei fynegi o ran digwyddiadau chwaraeon yn unig.

C4. Os mai ch ateb i C2 oedd y dylai digwyddiadau heblaw rhai yn ymwneud â chwaraeon gael eu hystyried hefyd ar gyfer eu rhestru, beth fyddai r maen prawf hanfodol?

Ar ôl cymhwyso o dan y prawf meini prawf hanfodol, roedd digwyddiad yn fwy tebygol o gael ei restru os oedd yn arddangos nodweddion arbennig, megis

- ei fod yn debygol o hawlio cynulleidfa deledu eang;
- bod ganddo hanes o gael ei ddarlledu'n fyw ar deledu am ddim.

C5. Ydych chi n ystyried bod y nodweddion hyn yn dal yn gymwys? Os nad ydych, neu os ydych chi n ystyried y dylai nodweddion ychwanegol gael eu cynnwys, eglurwch pam.

Wrth benderfynu a ddylid rhestru digwyddiad, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ystyriaeth i ffactorau eraill sy'n effeithio ar gostau a buddiannau tebygol y chwaraeon dan sylw, i'r diwydiant darlledu ac i wylwyr, megis:

- A yw'n ymarferol cynnig sylwebaeth lawn yn fyw ar sianel gyffredinol - fel arfer ni fydd digwyddiadau estynedig megis pencampwriaethau sy'n para tymor yn cynnwys nifer o gemau'n cael eu rhestru yn eu cyfanrwydd.
- Efallai y gallai rhestru leihau'r incwm neu ddarpar incwm y gamp a gallai canlyniadau'r lleihad hwnnw effeithio ar fuddsoddi ac/neu ar wella lefelau o berfformiad ac/neu ar greu cyfleusterau diogel.
- Effaith tebygol rhestru ar y farchnad ddarlledu, gan gynnwys buddsoddiadau yn y dyfodol mewn darlledu chwaraeon, y lefel o gystadleuaeth a safle darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus.
- A oes yna drefniadau i sicrhau bod gan bob gwyliwr fynediad i'r digwyddiad trwy gyfrwng uchafbwyntiau, darlledu wedi ei ohirio ac/neu sylwebaeth ar y radio.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried y ffactorau eraill hyn gyda'i gilydd. Does dim un ffactor yn arwain at restru'n awtomatig nac yn diarddel digwyddiad rhag cael ei ystyried.

C6. Ai r rhain yw r ffactorau priodol eraill y dylai r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried wrth ddod i benderfyniad a ddylai restru r digwyddiad ai peidio? Os na, neu os ydych o r farn y dylid ystyried ffactorau ychwanegol, eglurwch pam.

I raddau helaeth, yr oedd oherwydd y ffactorau eraill hyn y gwnaeth y Panel Ymgynghorol argymell ym 1998 y dylid rhannu'r rhestr yn ddwy – A a B. Byddai Rhestr B yn cynnwys digwyddiadau a allai fod yn anodd eu hamserlennu, ond y gellid eu diogelu trwy gyfrwng uchafbwyntiau, darlledu wedi ei ohirio neu sylwebaeth fyw ar y radio. Derbyniodd yr Ysgrifennydd Gwladol yr argymhelliad hwn.

C7. Ydych chi n cytuno y dylid cynnal rhestr A a B? Os nad ydych, eglurwch pam.

Fel yr eglurwyd uchod, mae trefniadau rhestru'n cael effaith ymarferol trwy gyfwng Côd Ymarfer a weithredir gan Ofcom.

C8. Oes yna unrhyw faterion y byddech yn hoffi eu dwyn i n sylw ynghylch y ffordd mae r trefniadau rhestru yn cael eu heffeithio n ymarferol gan Ofcom?

Pa Ddigwyddiadau Ddylai Gael eu Rhestru?

Yn y pen draw mater i'r Ysgrifennydd Gwladol yw penderfynu pa ddigwyddiadau gaiff eu rhestru, ac a oes yna fwy nag un rhestr, yn amodol ar ymgynghori gyda'r awdurdodau darlledu a deiliaid hawliau sydd wedi eu heffeithio. Ond mae'r Panel Ymgynghorol yn awyddus i dderbyn barn ehangaf y cyhoedd, y diwydiannau darlledu a chyfryngau a'r cyrff chwaraeon a deiliaid hawliau wrth wneud ei argymhellion.

C9. Ydych chi n meddwl y dylai r Ysgrifennydd Gwladol:

- adael y trefniadau cyfredol heb eu newid;
- symud digwyddiadau cyfredol rhwng rhestri A a B;
- ychwanegu unrhyw ddigwyddiadau newydd; neu
- ddileu digwyddiadau sydd wedi eu rhestru eisoes?

Rhowch resymau dros eich atebion.

Fel y gwelir, mae'r rhestrau cyfredol yn gymysgedd o ddigwyddiadau unigol ac o gystadlaethau campau unigol neu amlddisgyblaeth sy'n cael eu cynnal dros gyfnod estynedig neu dros gyfnod o ddyddiau.

C10. Os ydych wedi awgrymu y dylai darllediad byw o r math hwn o dwrnameintiau gael eu rhestru ydych chi n meddwl:

- y dylai'r twrnamaint cyfan gael ei restru; neu
- dim ond rhannau, digwyddiadau neu gemau dethol sy'n cynnwys timau neu gynrychiolwyr cenedlaethol.

Rhowch resymau am eich safbwynt ac, os ydych yn ffafrio rhestru dethol, nodwch pa dwrnameintiau a pha rannau, digwyddiadau neu gemau.

Os mai'ch ateb i C2 oedd y dylai digwyddiadau heblaw chwaraeon gael eu hystyried hefyd ar gyfer eu rhestru:

C11. Awgrymwch pa ddigwyddiadau heblaw chwaraeon yr hoffech eu gweld yn cael eu rhestru a pham.

Casgliad

Yng ngoleuni argymhellion y Panel, a fydd yn gwneud defnydd o ddeilliant y broses ymgynghori hon, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dod i gasgliadau ac yna bydd yn ymgynghori â'r awdurdodau darlledu ac unrhyw ddeiliaid hawliau gaiff eu heffeithio ar sut y mae'n bwriadu symud ymlaen yn ôl gofynion Deddf Darlledu 1996.

C12. Oes gennych chi unrhyw faterion eraill yr hoffech i r Panel eu hystyried wrth ystyried beth ddylai ei argymhellion fod?

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

8 Ebrill 2009

Atodiad A: Fframwaith deddfwriaethol yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig

Cyflwyniad

Yn yr Atodiad hwn, rydym yn cyflwyno detholiad o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweled sy'n darparu'r fframwaith Ewropeaidd ar gyfer y gyfundrefn digwyddiadau rhestredig. Rydym hefyd yn cynnwys fersiwn answyddogol wedi ei gydgrynhoi o ddetholiadau perthnasol o'r Ddeddf Darlledu 1996, fel y'i diwygiwyd.

Y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweled

Erthygl 3j

1. Gall pob Aelod-wladwriaeth gymryd camau yn unol â chyfraith y Gymuned i sicrhau nad yw darlledwyr dan ei hawdurdodaeth yn darlledu yn neilltuedig digwyddiadau sy'n cael eu hystyried gan yr Aelod-wladwriaeth honno fel rhai sydd o bwysigrwydd mawr i gymdeithas yn y fath fodd fel eu bod yn amddifadu cyfran sylweddol o'r cyhoedd yn yr Aelod-wladwriaeth honno o'r posibilrwydd o ddilyn digwyddiadau o'r fath trwy ddarlledu byw neu ddarlledu gohiriedig ar deledu am ddim. Os bydd yn gwneud hynny, bydd yr Aelod-wladwriaeth dan sylw yn creu rhestr o ddigwyddiadau dynodedig, rhai cenedlaethol neu rai heb fod yn genedlaethol y mae'n eu hystyried i fod o bwysigrwydd arwyddocaol i gymdeithas. Bydd yn gwneud hynny mewn dull clir a thryloyw ac mewn da bryd. Wrth wneud hyn bydd yr Aelod-wladwriaeth dan sylw hefyd yn pennu a ddylai'r digwyddiadau hyn fod ar gael trwy ddarlledu byw'n gyfan gwbl neu'n rhannol, neu lle bo angen hynny neu ei bod yn briodol am resymau gwrthrychol er budd cyhoeddus, trwy ddarlledu gohiriedig cyfan gwbl neu rannol.

2. Bydd Aelod-wladwriaethau'n rhoi gwybod yn syth i'r Comisiwn am unrhyw gamau wedi eu cymryd neu i'w cymryd yn unol â pharagraff 1. Oddi fewn cyfnod o dri mis ar ôl yr hysbysiad, bydd y Comisiwn yn gwirio bod y fath fesurau'n gydnaws â chyfraith y Gymuned a bydd yn eu cyfathrebu i Aelod-wladwriaethau eraill. Bydd yn ceisio barn y pwyllgor cyswllt a ffurfiwyd yn unol ag Erthygl 23a. Bydd yn cyhoeddi'r mesurau a gymerwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yn ddi-oed ac o leiaf unwaith y flwyddyn y rhestr gyfun o'r mesurau a gymerwyd gan yr Aelod-wladwriaethau.

3. Bydd yr Aelod-wladwriaethau'n sicrhau, trwy ddulliau priodol oddi fewn i fframwaith eu deddfwriaeth, nad yw darlledwyr o dan eu hawdurdodaeth yn gweithredu hawliau neilltuedig wedi eu prynu gan y darlledwyr hynny yn dilyn dyddiad cyhoeddi'r Gyfarwyddeb hon yn y fath fodd fel bod cyfran sylweddol

o'r cyhoedd mewn Aelod-wladwriaeth arall yn unol â pharagraffau 1 a 2 trwy ddarlledu byw'n gyfan gwbl neu'n rhannol, neu lle bo angen hynny neu ei bod yn briodol am resymau gwrthrychol er budd cyhoeddus, trwy ddarlledu gohiriedig cyfan gwbl neu rannol ar deledu am ddim fel y'i pennwyd gan yr Aelod-wladwriaeth arall honno yn unol â pharagraff 1.

Detholiad o Ddeddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd)

Chwaraeon a digwyddiadau eraill o ddiddordeb cenedlaethol

97. (1) At ddibenion y Rhan hon, mae digwyddiad rhestredig yn golygu chwaraeon neu ddigwyddiad arall o ddiddordeb cenedlaethol sydd, am y tro, yn cael ei gynnwys mewn rhestr gaiff ei llunio gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion y Rhan hon.

Cyn llunio, adolygu neu beidio â chynnal y fath restr, ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori ag -

(a) Ofcom,

(b) y BBC,

(c) yr Awdurdod Cymreig,

(ch) mewn perthynas â digwyddiad perthnasol, y person y gellir caffael yr hawliau i deledu'r digwyddiad hwnnw oddi wrtho;

ac at ddibenion yr isadran hon, mae digwyddiad perthnasol yn golygu digwyddiad chwaraeon neu fel arall sydd o ddiddordeb cenedlaethol y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu ei gynnwys ar, neu ei adael allan o'r rhestr.

(2) Cyn gynted â'i fod wedi llunio neu adolygu rhestr o'r math a grybwyllir yn isadran (1), bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi'r rhestr yn y modd mae ef yn ei ystyried yn addas i'w dwyn i sylw -

(a) y personau a enwir yn isadran (2), a

(b) phob person sy'n ddeiliad trwydded a roddir dan Ran 1 o Ddeddf 1990 neu drwydded rhaglen ddigidol a roddir dan Ran 1 o'r Ddeddf hon.

(3) Yn yr adran hon mae "diddordeb cenedlaethol" yn cynnwys diddordeb oddi fewn i Loegr, yr Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon.

(4) Ni fydd ychwanegu unrhyw ddigwyddiad perthnasol ar restr o'r math a grybwyllir yn adran (1) yn effeithio ar -

(a) ddilysrwydd unrhyw gytundeb a wnaed cyn y dyddiad pan ymgynghorodd yr Ysgrifennydd Gwladol â'r personau a enwir yn isadran (2) mewn perthynas â'r ychwanegiad arfaethedig, neu

(b) weithredu unrhyw hawliau a gafwyd dan y fath gytundeb.

(5) Bydd y rhestr a luniwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion adran 182 o Ddeddf 1990, gan fod y rhestr honno mewn grym yn syth cyn cychwyn yr adran hon, yn cael ei hystyried yr un a luniwyd at ddibenion y Rhan hon.

98. (1) At ddibenion y Rhan hon, bydd y gwasanaethau rhaglenni teledu a gwasanaethau lloeren yr AEE yn cael eu rhannu'n ddau gategori fel a ganlyn:

(a) y gwasanaethau rhaglenni teledu a gwasanaethau lloeren yr AEE sydd ar hyn o bryd yn bodloni'r amodau cymhwyso, a'r

(b) holl wasanaethau rhaglenni teledu a gwasanaethau lloeren yr AEE eraill.

(2) Yn yr adran hon mae'r "amodau cymhwysol", mewn perthynas â gwasanaeth, yn golygu'r amodau:

(a) bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu heb angen ystyried derbyniad y gwasanaeth, a

(b) bod y gwasanaeth yn cael ei dderbyn gan o leiaf 95% o boblogaeth y Deyrnas Unedig.

(3) At ddibenion isadran (2)(a) fe ddiystyrir unrhyw ffi sy'n daladwy mewn cysylltiad â thrwydded at ddibenion Adran 363 o Ddeddf Cyfathrebu 2003.

(4) Mae'r amod yn isadran (2)(b)

(a) i'w gymryd ei fod wedi ei fodloni mewn cysylltiad â gwasanaeth Sianel 3 rhanbarthol os yw wedi ei fodloni mewn cysylltiad â gwasanaeth Sianel 3 yn gyffredinol, ac

(b) mae i'w gymryd ei fod wedi ei fodloni mewn cysylltiad â gwasanaeth Sianel 4 os yw wedi ei fodloni mewn perthynas â Sianel 4 ac S4C o'u cymryd gyda'i gilydd.

(5) Bydd Ofcom o bryd i'w gilydd yn cyhoeddi rhestr o'r gwasanaethau rhaglenni teledu a gwasanaethau lloeren yr AEE sy'n ymddangos iddynt fel rhai sy'n ateb yr amodau cymhwysol.

(6) Yn yr adran hon mae "gwasanaethau lloeren yr AEE" yn golygu unrhyw wasanaeth sy'n:

(a) cynnwys darlledu rhaglenni teledu trwy loeren er mwyn bod ar gael i'w derbyn gan aelodau'r cyhoedd (o fewn ystyr Rhan 3 o'r Ddeddf Cyfathrebu 2003), ac sy'n

(b) cael ei ddarparu gan berson sydd, at ddibenion Cyfarwyddeb 89/552/EEC y Cyngor, dan awdurdodaeth Gwladwriaeth yr AEE ar wahân i wledydd y Deyrnas Unedig.

99. (1) Bydd unrhyw gytundeb yr ymrwymir iddo ar ôl cychwyn yr adran hon sy'n rhoi hawliau i ddarparwr rhaglenni teledu ddarlledu'r cyfan neu ran o unrhyw ddigwyddiad rhestredig yn fyw i'w dderbyn yn y Deyrnas Unedig, neu yn unrhyw ardal o'r Deyrnas Unedig, yn ddi-rym mor bell ag y mae'n dynodi ei fod, mewn perthynas â'r cyfan neu unrhyw ran o'r digwyddiad neu mewn perthynas â derbyniad yn y Deyrnas Unedig, neu yn unrhyw ardal o'r Deyrnas Unedig, am roi'r hawliau hyn yn gyfan gwbl i un darparwr rhaglenni teledu.

(2) Yn y Rhan hon mae "darparwr rhaglenni teledu" yn golygu'r BBC, yr Awdurdod Cymreig neu unrhyw berson sy'n ddeiliad unrhyw drwydded dan Ran 1 o Ddeddf 1990 neu drwydded rhaglen ddigidol dan Ran 1 y Ddeddf hon.

(3) At ddibenion yr adran hon mae'r hawliau i ddarlledu'r cyfan neu ran o ddigwyddiad yn fyw i'w dderbyn yn unrhyw ardal sydd wedi eu rhoi i ddarparwr rhaglenni teledu'n cael eu rhoi'n ecscliwsif -

(a) os nad yw'r person sy'n eu rhoi wedi rhoi unrhyw hawl i ddarlledu'r cyfan neu, fel bo'r achos, y rhan honno o'r digwyddiad yn fyw i'w dderbyn yn yr ardal honno i unrhyw ddarparwr rhaglenni teledu arall nac i unrhyw ddarlledwr sydd, at ddibenion Cyfarwyddeb 89/552/EEC y Cyngor dan awdurdodaeth Gwladwriaeth yr AEE ar wahân i wledydd y Deyrnas Unedig, ac

(b) os yw'r person sy'n eu rhoi yn cael ei atal gan delerau'r cytundeb rhag gwneud hynny.

100. (1) Bydd unrhyw gytundeb yr ymrwymir iddo ar ôl cychwyn yr adran hon yn ddi-rym cyn belled ag y mae'n honni rhoi hawliau i ddarparwr rhaglenni teledu ddarlledu'r cyfan neu unrhyw ran o ddigwyddiad rhestredig yn fyw i'w dderbyn yn y Deyrnas Unedig, neu unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig, oni bai bod y cytundeb yn cydymffurfio ag isadran (2).

(2) Mae cytundeb yn cydymffurfio â'r isadran hon os yw telerau'r cytundeb yn caniatáu i'r darparwr rhaglenni teledu gynnwys darllediad byw o'r digwyddiad rhestredig –

(a) mewn gwasanaeth rhaglenni teledu sy'n disgyn i mewn i baragraff (a) o isadran (1) o adran 98 yn unig, neu

(b) mewn gwasanaeth rhaglenni teledu sy'n disgyn i mewn i baragraff (b) o'r isadran honno yn unig.

101. (1) Ni chaiff darparwr rhaglenni teledu sy'n darparu gwasanaeth sy'n disgyn i mewn i unrhyw un o'r categorïau a eglurir yn isadran (1) o adran 98 ("y gwasanaeth cyntaf") ar gyfer ei dderbyn yn y Deyrnas Unedig neu unrhyw ardal o'r Deyrnas Unedig, heb sicrhau caniatâd Ofcom ymlaen llaw, gynnwys yn y gwasanaeth hwnnw ddarlledu byw o'r holl neu unrhyw ran o ddigwyddiad rhestredig oni bai -

(a) bod person arall, sy'n darparu gwasanaeth sy'n disgyn i mewn i'r categori arall a nodir yn yr isadran honno ("yr ail wasanaeth"), wedi sicrhau'r hawl i gynnwys darllediad byw ail wasanaeth o'r digwyddiad cyfan neu ran o'r digwyddiad, a

(b) bod yr ardal y mae'r ail wasanaeth wedi ei ddarparu ar ei chyfer yn cynnwys y cyfan, neu ran sylweddol o 'r cyfan, o'r ardal mae'r gwasanaeth cyntaf wedi ei ddarparu ar ei chyfer.

(2) Gall Ofcom ddiddymu unrhyw ganiatâd a roddwyd dan isadran (1).

(3) Ni fydd methiant i gydymffurfio ag isadran (1) yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw gytundeb.

(4) Ni fydd isadran (1) yn effeithiol lle mae'r darparwr rhaglenni teledu sy'n darparu'r gwasanaeth cyntaf yn gweithredu hawliau a sicrhawyd cyn cychwyn yr adran hon.

101A. At ddibenion y Rhan hon, mae chwaraeon neu ddigwyddiad arall yn ddigwyddiad dynodedig, mewn cysylltiad â Gwladwriaeth yr AEE ar wahân i'r Deyrnas Unedig, os:

(a) yw'r Wladwriaeth honno wedi dynodi'r digwyddiad yn unol ag Erthygl 3a(1) o Gyfarwyddeb 89/552/EEC y Cyngor o bwysigrwydd sylweddol i'w chymdeithas, a

(b) bod y dynodiad yn ffurfio rhan o'r mesurau:

(i) sydd wedi eu harwyddo gan y Wladwriaeth honno i'r Comisiwn Ewropeaidd at ddibenion Erthygl 3a(2) o'r Gyfarwyddeb honno, ac

(ii) sydd â hysbysiad wedi ei gyhoeddi gan y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghyfnodolyn Swyddogol y Cymunedau.

101B. (1) Ni chaiff darparwr rhaglenni teledu, heb ganiatâd blaenorol Ofcom, weithredu hawliau i ddarlledu digwyddiad cyfan neu rannau ohono os yw'n ddigwyddiad dynodedig, mewn cysylltiad â Gwladwriaeth yr AEE ar wahân i'r Deyrnas Unedig, i'w dderbyn yng Ngwladwriaeth honno'r AEE neu unrhyw ardal o'r Wladwriaeth honno'r AEE, lle mae cyfran sylweddol o'r cyhoedd yn y Wladwriaeth honno'r AEE yn cael eu hamddifadu o'r posibilrwydd o ddilyn y digwyddiad hwnnw'n fyw neu trwy ddarlledu gohiriedig ar deledu am ddim fel y'i pennir gan y Wladwriaeth honno yn unol ag Erthygl 3a(1) o Gyfarwyddeb 89/552/EEC y Cyngor.

(2) Gall Ofcom ddileu unrhyw ganiatâd a roddwyd iddynt dan isadran (1).

(3) Ni fydd methiant i gydymffurfio ag isadran (1) yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw gytundeb.

(4) Ni fydd isadran (1) yn effeithiol lle sicrhawyd yr hawliau cyn y diwrnod pan ddaeth y digwyddiad yn ddigwyddiad dynodedig.

102. (1) Os yw Ofcom:

(a) yn fodlon bod deiliad trwydded dan Ran 1 o Ddeddf 1990 neu drwydded rhaglenni digidol dan Ran 1 o'r Ddeddf hon wedi methu â chydymffurfio ag isadran (1) o adran 101, neu isadran (1) o adran 101B, ac os

(b) nad ydynt wedi'u bodloni yn yr holl amgylchiadau y byddai'n afresymol disgwyl iddo fod wedi cydymffurfio â'r isadran honno, fe allent ofyn iddo dalu, o fewn cyfnod penodol, gosb ariannol benodedig i Ofcom.

(2) Os yw Ofcom wedi eu bodloni, mewn cysylltiad â chais am ganiatâd dan isadran (1) o adran 101, neu isadran (1) o adran 101B, bod deiliad trwydded dan Ran 1 o Ddeddf 1990 neu drwydded rhaglenni digidol dan Ran 1 o'r Ddeddf hon wedi:

(a) darparu gwybodaeth iddynt oedd yn ffug mewn manylyn perthnasol, neu

(b) wedi cadw'n ôl unrhyw wybodaeth berthnasol gyda'r bwriad o gamarwain Ofcom, fe allent ofyn iddo dalu, o fewn cyfnod penodol, gosb ariannol benodedig i Ofcom.

(2A) Cyn disgwyl i unrhyw berson dalu cosb ariannol dan isadran (1) ar sail y ffaith ei fod wedi methu â chydymffurfio ag isadran (1) o adran 101B, bydd Ofcom yn ymgynghori â phersonau o'r fath (a all gynnwys awdurdodau cymwys mewn Gwladwriaethau eraill yr AEE) fel sy'n ymddangos yn gymwys i Ofcom.

(3) Ni fydd cyfanswm y gosb ariannol a roddir i unrhyw berson dan isadrannau (1) neu (2) yn fwy na'r swm a gynhyrchir trwy luosi'r ystyriaeth berthnasol â'r lluosydd rhagnodedig.

(4) Yn isadran (3) -

(a) mae'r "ystyriaeth berthnasol" yn golygu swm a bennir gan Ofcom sy'n cynrychioli gymaint o unrhyw ystyriaeth a delir gan y person sydd wedi derbyn y gosb ag a ellir ei briodoli i gaffael hawliau i deledu'r digwyddiad dan sylw, ac

(b) mae'r "lluosydd rhagnodedig" yn golygu'r fath rif ag y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei orchymyn i gael ei ragnodi o bryd i'w gilydd.

(5) Bydd gorchymyn dan isadran (4)(b) yn amodol ar ddirymiad wrth geisio penderfyniad yn un o ddau Dŷ'r Senedd.

(6) Pan fo Ofcom yn derbyn unrhyw swm sy'n daladwy iddynt yn rhinwedd isadrannau (1) neu (2), ni fydd y swm hwnnw yn ffurfio rhan o refeniw Ofcom ond fe fydd yn cael ei dalu i mewn i'r Gronfa Gyfunol.

(7) Bydd unrhyw swm sy'n daladwy i Ofcom gan unrhyw berson yn rhinwedd isadrannau (1) neu (2) yn adferadwy ganddynt fel dyled sy'n ddyledus iddynt oddi wrth y person hwnnw.

103. (1) Os yw Ofcom:

(a) yn derbyn bod corff darlledu wedi methu â chydymffurfio ag isadran (1) o adran 101 neu isadran (1) o adran 101B, ac

(b) os nad ydynt wedi'u bodloni y byddai, ym mhob amgylchiad, yn afresymol i ddisgwyl i'r corff fod wedi cydymffurfio â'r isadran honno, fe fyddent yn cyflwyno adroddiad ar y mater i'r Ysgrifennydd Gwladol.

(2) Os yw Ofcom yn derbyn, mewn cysylltiad â chais am ganiatâd dan isadran (1) o adran 101 neu isadran (1) o adran 101B, bod corff darlledu wedi -

(a) cyflwyno gwybodaeth iddynt oedd yn ffug mewn manylyn perthnasol, neu

(b) wedi cadw gwybodaeth berthnasol yn ôl gyda'r bwriad o achosi i Ofcom gael ei gamarwain, fe fyddent yn cyflwyno adroddiad ar y mater i'r Ysgrifennydd Gwladol.

(2A) Cyn cyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â'r ffaith bod corff darlledu wedi methu â chydymffurfio ag isadran (1) o adran 101B, bydd Ofcom yn ymgynghori â'r bobl hynny (a allai gynnwys awdurdodau cymwys mewn Gwladwriaethau eraill yr AEE) sy'n ymddangos i Ofcom fel petaent yn briodol.

(3) Yn yr adran hon mae'r "corff darlledu" yn golygu'r BBC neu'r Awdurdod Cymreig.

104. (1) Bydd Ofcom yn llunio, ac efallai o bryd i'w gilydd yn diwygio côd yn rhoi canllaw ar:

(a) y materion y byddent yn eu hystyried wrth benderfynu un ai i roi neu i ddiddymu eu caniatâd at ddibenion adran 101 (1B) neu adran 101B (1), ac ar

(b) y materion y byddent yn eu hystyried wrth benderfynu, at ddibenion adran 102 (1) neu 103 (1), a yw, o ystyried yr holl amgylchiadau, yn afresymol disgwyl i ddarparwr rhaglenni teledu gydymffurfio ag adran 101 (1) neu adran 101B (1).

(2) Wrth weithredu eu pwerau dan y Rhan hon, bydd Ofcom yn talu sylw i ddarpariaethau'r côd.

(3) Cyn llunio neu adolygu'r côd bydd Ofcom yn ymgynghori â'r personau hynny sy'n ymddangos i Ofcom yn briodol.

(4) Cyn gynted ag y bydd Ofcom wedi llunio neu adolygu'r fath côd, bydd Ofcom yn cyhoeddi'r côd yn y modd maent yn ei ystyried yn addas i ddod ag ef i sylw:

(a) y BBC,

(b) yr Awdurdod Cymreig

(c) pob person y byddai'r hawliau i ddarlledu digwyddiad rhestredig i'w cael ganddynt, a

(ch) phob person sy'n ddeiliad trwydded wedi ei rhoi dan Ran 1 o Ddeddf 1990 neu drwydded rhaglenni ddigidol a roddwyd iddynt dan Ran 1 o'r Ddeddf hon.

104ZA. (1) Bydd darparwr rhaglenni deledu, ar gais Ofcom, yn cyflwyno iddynt y fath wybodaeth y bydd Ofcom yn ei ystyried yn addas yn ymwneud ag unrhyw gytundeb y mae'n rhan ohoni sy'n gysylltiedig â digwyddiad, sydd, mewn perthynas â Gwladwriaeth yr AEE ar wahân i'r Deyrnas Unedig, yn ddigwyddiad rhagnodedig.

(2) Os daw cais gan awdurdod cymwys mewn Gwladwriaeth yr AEE ar wahân i'r Deyrnas Unedig, bydd Ofcom yn cyflwyno i'r awdurdod y fath wybodaeth sy'n berthnasol i hawliau i ddarlledu digwyddiadau rhestredig neu ddigwyddiadau dynodedig y mae Ofcom yn eu hystyried yn addas i'w darparu.

Côd Ofcom ar Chwaraeon a Digwyddiadau Rhestredig a Dynodedig Eraill

[Noder: cyhoeddwyd y Côd hwn yn gyntaf gan y Comisiwn Teledu Annibynnol (ITC), ac fe'i diwygiwyd ganddo ym mis Ionawr 2002. Mae cyfeiriadau at yr ITC wedi cael eu disodli gan gyfeiriadau at Ofcom, ac mae'r rhestr o wasanaethau cymwys yn Atodiad 2 wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu penderfyniad Ofcom ym mis Mawrth 2008 bod Five yn bodloni'r amodau cymhwyso a nodir yn Rheoliadau Teledu 2000.]

Rhagair

1.1 Dan Ddeddf Darlledu 1996, (y 'Ddeddf') fel y diwygiwyd gan Reoliadau Darlledu Teledu 2000 (y 'Rheoliadau') a Deddf Cyfathrebu 2003, mae'n ofynnol i Ofcom lunio, ac o bryd i'w gilydd adolygu, côd sy'n rhoi arweiniad ar rai materion sy'n ymwneud â darlledu chwaraeon a digwyddiadau eraill o ddiddordeb cenedlaethol a restrwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cynhyrchwyd y Côd hwn ar ôl ymgynghori â darlledwyr, cyrff chwaraeon, deiliaid hawliau chwaraeon a phartïon eraill â diddordeb, at ddiben cyflawni'r ddyletswydd statudol hon, fel y diffinnir dan Adran 104 o'r Ddeddf. Diweddarwyd y Côd i ymgorffori gofynion cyfarwyddeb 89/552/EC fel y diwygiwyd gan 97/36/EC ac Offeryn Statudol 2000 Rhif 54 (y 'Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweled').

1.2 Mae'r Ddeddf yn cyfyngu gallu darparwyr rhaglenni teledu i gaffael hawliau neilltuedig i bob rhan neu unrhyw ran o ddarllediad teledu byw o ddigwyddiadau rhestredig a darlledu neilltuedig o'r fath heb ganiatâd ymlaen llaw gan Ofcom (gweler Rhan IV o'r Ddeddf). Dan y Ddeddf, mae gan Ofcom bwerau i roi cosb ariannol ar ei drwyddedeion os nad ydynt yn cadw at gyfyngiadau ar ddarllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig, os yw Ofcom wedi derbyn gwybodaeth ffug neu os yw gwybodaeth berthnasol wedi cael ei hatal. O ran y BBC ac S4C, rhaid i Ofcom hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am y mater. Bydd Ofcom yn rhoi sylw i ddarpariaethau'r Côd wrth weithredu'r pwerau hyn.

1.3 Mae 'digwyddiadau rhestredig' yn cael eu llunio gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â'r Ddeddf, ac mae'r rhestr gyfredol i'w gweld yn Atodiad 1. Mae'n bosibl y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ychwanegu digwyddiadau at neu ddileu digwyddiadau o'r rhestr ar unrhyw bryd, ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r BBC, yr Awdurdod Cymreig, Ofcom a deiliad yr hawliau i'r digwyddiad dan sylw. Ym mis Mehefin 1998 ehangodd yr Ysgrifennydd Gwladol y rhestr i gynnwys digwyddiadau Grŵp B ar yr amod y byddent yn cael eu trin yn wahanol i ddigwyddiadau Grŵp A. Digwyddiadau Grŵp A yw'r rhai efallai nad ydynt yn cael eu darlledu yn fyw ar sail neilltuedig oni bai y bodlonir rhai meini prawf arbennig. Nodir y meini prawf a'r materion i'w hystyried gan Ofcom ym mharagraffau 1.13 -1.17. Digwyddiadau Grŵp B yw'r digwyddiadau

hynny efallai nad ydynt yn cael eu darlledu yn fyw ar sail neilltuedig oni bai bod darpariaeth ddigonol ar gael ar gyfer darlledu eilradd. Mae safon ofynnol y darlledu eilradd y bydd Ofcom yn ei hystyried yn ddarpariaeth ddigonol wedi'i nodi ym mharagraffau 1.18 ac 1.19.

1.4 Lluniwyd côd ymddygiad gwirfoddol ar wahân ar gyfer digwyddiadau chwaraeon gan y Brif Adran Chwaraeon i Wylwyr Cyngor Canolog ar gyfer Hamdden Gorfforol mewn ymgynghoriad â'r Cyngor Chwaraeon. A bwrw bod diddordeb gan y darlledwyr, egwyddor ganolog y côd gwirfoddol hwn yw sicrhau y bydd darllediadau teledu o brif ddigwyddiadau chwaraeon cyffredinol, h.y. nid yn unig y digwyddiadau rhestredig, ar gael i'r cyhoedd cyffredinol mewn rhaglenni byw, wedi'u recordio a/neu uchafbwyntiau.

1.5 Gosodir rhai gofynion ar ddarlledwyr hefyd gan Erthygl 3j paragraff 3 o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweled (AVMS) fel y nodir yn y Rheoliadau. Bwriad y rheoliadau hyn, a nodir ym mharagraffau 1.23-1.28, yw sicrhau nad yw darlledwyr o dan awdurdodaeth y DU a darlledu i Wladwriaethau eraill yr AEE yn mynd o'r tu allan i'r rheolau ar ddigwyddiadau rhestredig (neu 'ddynodedig') sy'n briodol yn y gwladwriaethau hynny. Ceir telerau cyfatebol i atal darlledwyr yng Ngwladwriaethau eraill yr AEE rhag mynd o'r tu allan i reolau digwyddiadau rhestredig y DU.

Darpariaeth a chefndir cyffredinol yn ymwneud â digwyddiadau rhestredig

1.6 At ddiben darllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig, mae'r Ddeddf yn diffinio dau gategori o wasanaethau rhaglenni teledu: y gwasanaethau rhaglenni teledu a'r gwasanaethau lloeren hynny yr AEE sydd ar hyn o bryd yn bodloni'r amodau cymhwyso ('y categori cyntaf') a phob un o'r gwasanaethau rhaglenni teledu a gwasanaethau lloeren eraill yr AEE ('yr ail gategori'). Diffinnir yr amodau cymhwyso fel (a) y darparir y gwasanaeth heb angen unrhyw ystyriaeth ar gyfer derbyn y gwasanaeth a (b) bod y gwasanaeth yn cael ei derbyn gan o leiaf 95% o boblogaeth y Deyrnas Unedig. Bydd gwasanaethau rhaglenni teledu a gwasanaethau lloeren yr AEE sy'n perthyn i'r categori cyntaf i'w gweld ar restr a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan Ofcom (gweler Atodiad 2). Nodir y gofynion hyn yn y Ddeddf fel y'i diwygiwyd gan y Rheoliadau.

1.7 Rhaid i unrhyw gontract ar gyfer darllediadau byw o ddigwyddiad rhestredig a lofnodir gan ddarlledwr ddatgan bod yr hawliau ar gael i ddangos y digwyddiad ar wasanaeth sy'n perthyn i un o'r ddau gategori, h.y., rhaid cael contractau ar wahân ar gyfer pob categori. Gwaherddir darlledwr sy'n darparu gwasanaeth yn y naill gategori neu'r llall ('y gwasanaeth cyntaf') rhag dangos darllediadau byw neilltuedig o bob rhan neu unrhyw ran o ddigwyddiad Grŵp A heb ganiatâd ymlaen llaw gan Ofcom oni bai bod y darlledwr sy'n darparu gwasanaeth yn y categori arall ('yr ail wasanaeth') wedi ennill yr hawl i ddangos darllediad byw o'r digwyddiad neu'r un rhan o'r digwyddiad. Rhaid i'r ardal a wasanaethir gan yr ail wasanaeth gynnwys yr holl ardal, neu ran fawr o'r ardal a wasanaethir gan y gwasanaeth cyntaf. Gall y gwasanaeth cyntaf a'r ail wasanaeth gael eu darparu gan drwyddedeion yn yr un berchenogaeth, ond rhyngddynt, raid iddynt gynnwys darlledwr ym mhob un o'r ddau gategori a ddisgrifir uchod.

1.8 Mae'r cyfyngiadau yn briodol ond i hawliau a enillwyd naill ai ar ôl dechrau Adran 101 o Ddeddf 1996, h.y. 1 Hydref 1996 neu ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol ddechrau ymgynghori â deiliaid hawliau ynghylch newidiadau i'r rhestr h.y. 25 Tachwedd 1997 neu 24 Ionawr 2001 fel y dangosir yn Atodiad 1.

1.9 Efallai bod digwyddiad wedi cael ei restru oherwydd ei fod o ddiddordeb 'cenedlaethol' yn Lloegr, yr Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon ar wahân. Dyma paham y rhestrwyd Rownd Derfynol Cwpan yr FA'r Alban, er enghraifft. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r digwyddiadau hynny gael eu dangos dim ond yn y rhan berthnasol o'r DU lle mae'n debygol y bydd y nifer mwyaf o wylwyr â diddordeb.

Felly, mae'r cyfeiriad at Sianel 3 yn Atodiad 2 yn golygu gwasanaethau Sianel 3 rhanbarthol unigol neu grwpiau o'i gwasanaeth, neu Sianel 3 fel cyfanwaith.

1.10 Mae'r Ddeddf yn ymwneud â rhoi cyfle i ddarllediadau byw fod ar gael. Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r Ddeddf yn gofyn am nac yn gwarantu darllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig, gan gynnwys darllediadau ar Sianel 3, Sianel 4 a'r BBC. Nid yw'r Ddeddf ychwaith yn gwahardd darllediadau byw neilltuedig o ddigwyddiadau rhestredig ar y gwasanaethau hyn neu eraill oni bai bod Ofcom yn fodlon bod meini prawf penodol wedi cael eu diwallu (gweler paragraffau 1.13-1.20).

1.11 Mae'n ofynnol i Ofcom roi arweiniad penodol ac fe nodir hwn isod. Bydd Ofcom yn parhau i adolygu'r arweiniad hwn ac mae'n bosibl y bydd yn ei ddiwygio yn sgîl profiad.

Noder: Canllaw yn unig yw'r côd hwn. Ni ddylid ystyried hwn mewn unrhyw ffordd a fyddai'n cynhyrchu canlyniad yn groes i ofynion ac amcanion rhannau perthnasol o Ddeddfau Darlledu 1990 a 1996 neu Gyfarwyddeb AVMS. Cynghorir darlledwyr a phartïon eraill â diddordeb i ddarllen rhannau perthnasol o'r Deddfau a'r Gyfarwyddeb yn ofalus, ynghyd â'r côd hwn, a cheisio cyngor proffesiynol eu hunain yn ôl yr angen.

Diffiniad o 'byw'

1.12 Dan Adran 104 o'r Ddeddf mae'n ofynnol i Ofcom nodi'r amgylchiadau pan fydd darlledi ad o ddigwyddiadau rhestredig cyffredinol, neu ddigwyddiad rhestredig arbennig, yn cael ei ystyried yn ddarllediad byw neu beidio. O ystyried y mater hwn mae Ofcom yn credu bod diddordebau'r gwylwyr yn ymwneud â chaniatáu iddynt gymryd rhan yn y digwyddiad wrth iddo ddigwydd, gymaint ag sy'n bosibl. Awgryma hyn y dylai darllediadau teledu byw o'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau chwaraeon, gan gynnwys y rhai sy'n digwydd mewn gwahanol gylchfaoedd amser, gael eu diffinio fel darllediadau sy'n gydamserol â'r digwyddiad (h.y. yn digwydd ar yr un pryd â'r digwyddiad). Fodd bynnag, oherwydd gwahanol natur a hyd digwyddiadau, nid yw'n bosibl cael un diffiniad.

Dylai'r dehongliad canlynol ganiatáu hyblygrwydd angenrheidiol:

(a) bydd y cyfyngiadau ar ddarllediadau byw yn briodol wrth i'r digwyddiad o dan sylw ddigwydd;

(b) os bydd y digwyddiad yn cynnwys gemau ar wahân, bydd y cyfyngiadau yn briodol wrth i bob gêm ddigwydd;

(c) o ran un digwyddiad sydd i fod i barhau dros sawl diwrnod, bydd y cyfyngiadau yn briodol yn ôl pob diwrnod o chwarae, wrth iddo ddigwydd.

(ch) o ran digwyddiad sy'n cynnwys rhannau diffiniedig ar wahân sy'n mynd dros amser (e.e. y Gemau Olympaidd neu Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd FIFA) ac felly nid oes modd ei ddarlledu yn llawn yn gydamserol, bydd y cyfyngiadau yn briodol i bob gêm neu gystadleuaeth fel petai'n un digwyddiad.

Materion i'w hystyried o ran rhoi neu ddiddymu caniatâd ar gyfer darlledu neilltuedig

1.13 Dan Adran 104(1)(b) o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Ofcom roi arweiniad ynghylch y materion y bydd yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylai roi caniatâd i ddarlledwr sy'n darparu gwasanaeth mewn un categori (y gwasanaeth cyntaf) i ddarparu darllediad byw neilltuedig o ddigwyddiad (neu ran o ddigwyddiad) lle nad yw darlledwr sy'n darparu gwasanaeth yn y categori arall (yr ail wasanaeth) wedi caffael yr un hawliau, neu lle nad yw'r ardal y mae'r ail wasanaeth yn darparu ar ei chyfer yn cynnwys yr holl ardal neu ran fawr o'r ardal y mae'r gwasanaeth cyntaf yn darparu ar ei chyfer.

1.14 Wrth benderfynu a ddylai roi caniatâd, efallai y bydd yn ddigonol i Ofcom sefydlu bod argaeledd hawliau yn hysbys yn gyffredinol a bod y darlledwr sy'n darparu gwasanaeth yn y categori arall heb fynegi diddordeb yn eu caffaeliad i ddeiliad yr hawliau, neu heb wneud cynnig am yr hawliau. Fodd bynnag, bydd Ofcom am fod yn fodlon bod darlledwyr wedi cael cyfle gwirioneddol i gaffael yr hawliau ar delerau teg a rhesymol ac, wrth ffurfio barn, bydd yn ystyried rhai neu bob un o'r meini prawf canlynol:

(a) rhaid i unrhyw wahoddiad i fynegi diddordeb, boed hwnnw ar ffurf hysbyseb gyhoeddus neu dendr caeedig, wrth gaffael yr hawliau, fod wedi ei gyfathrebu yn agored ac yn gydamserol â darlledwyr sy'n darparu gwasanaethau yn y ddau gategori;

(b) ar ddechrau unrhyw drafodaeth rhaid i'r ddogfennaeth a/neu'r deunydd marchnata nodi ym mhob ffordd berthnasol y broses ar gyfer trafod a chaffael yr hawliau a'r holl delerau ac amodau perthnasol, gan gynnwys pa amodau a oedd ar gael;

(c) petai'r hawliau i'r digwyddiad rhestredig wedi'u cynnwys mewn pecyn o hawliau, ni ddylai'r pecyn fod yn fwy atyniadol i ddarlledwyr sy'n darparu gwasanaethau yn un o'r ddau gategori. Yn well byth, dylai hawliau fod ar gael i'w prynu yn annibynnol o hawliau eraill, e.e. i uchafbwyntiau, darllediadau hwyr, digwyddiadau eraill;

(ch) rhaid i amodau neu gostau sy'n gysylltiedig â chaffael yr hawliau (er enghraifft, costau cynhyrchu) fod wedi'u nodi'n glir ac ni ddylent fod yn ffafriol i un categori gwasanaeth;

(d) rhaid i'r pris a geisir am yr hawliau fod yn deg, yn rhesymol ac yn anwahaniaethol fel rhwng y ddau gategori o wasanaeth rhaglenni. Mae'r hyn sydd yn bris teg yn dibynnu ar yr hawliau sy'n cael eu cynnig a gwerth yr hawliau hynny i ddarlledwyr. Mae amrywiaeth eang o brisiau yn debygol o gael ei hystyried yn deg ond pan fydd yn ofynnol i Ofcom lunio barn ei hunan am y mater bydd yn ystyried, ymhlith eraill:

(i) ffioedd blaenorol ar gyfer y digwyddiad neu ddigwyddiadau tebyg;

(ii) amser o'r diwrnod ar gyfer darllediad byw o'r digwyddiad;

(iii) y refeniw neu botensial y gynulleidfa yn gysylltiedig â darllediad byw o'r digwyddiad (e.e. cyfle i werthu hysbysebion a nawdd; y rhagolygon ar gyfer incwm tanysgrifiadau);

(iv) y cyfnod y cynigir hawliau ar ei gyfer; a

(v) chystadleuaeth yn y farchnad.

(dd) ffeithiau a materion eraill o'r fath y mae Ofcom yn eu gweld yn berthnasol, yn yr amgylchiadau penodol sydd wedi codi.

1.15 Mae cyfle gwirioneddol i gaffael yr hawliau hefyd yn gofyn bod darlledwyr yn cael amser rhesymol i wneud hyn felly. Bydd amser rhesymol yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos, gan gynnwys cymhlethdod y trafodaethau a chynhyrchiad a darllediad y digwyddiad, a pha mor agos yw'r digwyddiad i'r dyddiad y mae'r hawliau yn cael eu cynnig arno. Dylai'r amser a ganiateir roi cyfle gwirioneddol i bob parti drafod a dod i gytundeb, ond ni ddylai gael ei estyn yn ormodol, gan atal neu gyfyngu darlledwyr rhag cydymffurfio â'r Côd hwn.

1.16 Mae angen caniatâd Ofcom hefyd pan na fydd yr ardal y mae'r gwasanaeth yn darparu ar ei chyfer yn cynnwys pob rhan, neu ran fawr o'r ardal y mae'r gwasanaeth arall yn darparu ar ei chyfer. Wrth ystyried a ddylai roi caniatâd, bydd Ofcom yn ystyried diddordebau'r gwylwyr yn y gwahanol ardaloedd ac ardaloedd darlledu'r gwahanol ddarlledwyr.

1.17 Fel rheol, rhoddir caniatâd ar gyfer y cyfnod llawn y mae hawliau wedi'u caffael ar ei gyfer i gydnabod y ffaith bod y pris a delir, ymhlith eraill, yn adlewyrchu cyfnod yr hawliau. Fodd bynnag, bydd Ofcom yn diddymu'r caniatâd os yw'r darlledwyr sydd wedi cael caniatâd yn gofyn am hyn, neu os rhoddwyd caniatâd ar sail gwybodaeth ffug neu gamarweiniol. Hefyd, bydd Ofcom yn ystyried diddymu caniatâd os yw'n ymddangos bod hawliau wedi cael eu caffael ar gyfer cyfnod ehangach er mwyn osgoi ysbryd y Ddeddf. Wrth benderfynu beth yw cyfnod ehangach bydd Ofcom yn rhoi sylw i gynseiliau ar gyfer hyn a digwyddiadau tebyg, gan gynnwys y cyfnodau pan fydd darlledwyr nad ydynt o'r DU yn cael hawliau ar gyfer darllediadau tramor.

1.18 I'r digwyddiadau hynny a restrir yn Grŵp B yn Atodiad 1, bydd Ofcom yn rhoi caniatâd ar gyfer darllediad byw neilltuedig o ddigwyddiad gan ddarlledwr sy'n darparu gwasanaeth mewn un categori (y gwasanaeth cyntaf) os oes darpariaeth ddigonol ar gyfer darllediad eilradd gan ddarlledwr sy'n darparu gwasanaeth yn y categori arall (yr ail wasanaeth). Bydd Ofcom yn ei hystyried yn ddigonol pan fydd yr ail wasanaeth wedi caffael hawliau ar gyfer darparu uchafbwyntiau golygedig neu ddarllediad hwyr sy'n gyfanswm o 10% o leiaf o gyfnod rhestredig y digwyddiad (neu'r chwarae yn y digwyddiad a gynhelir ar unrhyw ddiwrnod), yn amodol ar leiafswm o 30 munud ar gyfer digwyddiad (neu'r chwarae yn y digwyddiad ar unrhyw ddiwrnod) sy'n para am awr neu fwy, p'un bynnag yw'r mwyaf. At y dibenion hyn, pan fydd gan ddigwyddiad nifer o wahanol elfennau yn cydredeg, diffinnir cyfnod rhestredig y digwyddiad fel yr amser a aeth heibio rhwng dechrau rhestredig yr elfen gyntaf o'r digwyddiad ar unrhyw ddiwrnod a diwedd rhestredig yr elfen olaf o'r digwyddiad ar y diwrnod hwnnw. Rhaid i'r ail wasanaeth gael rheolaeth olygyddol dros gynnwys ac

amserlennu'r uchafbwyntiau golygedig neu'r darllediad hwyr ond efallai y bydd cyfyngiad yn cael ei osod sef na fydd yr ail wasanaeth yn dechrau darlledu'r uchafbwyntiau golygedig neu'r darllediad hwyr nes bod cyfnod wedi mynd heibio yn dilyn canlyniad rhestredig y digwyddiad (neu'r chwarae yn y digwyddiad ar unrhyw ddiwrnod). Y cyfnod hwyaf a ganiateir yw fel a ganlyn:

Ar gyfer digwyddiad sydd i fod i orffen:	**Cyfnod gohiriedig hwyaf:**
Ar ôl canol nos a hyd at 8.00yb	Uchafbwyntiau golygedig neu ddarllediad hwyr i ddechrau ddim yn hwyrach na 10.00yb
Rhwng 8.00yb ac 8.30yh	Hyd at ddwy awr
Rhwng 8.30yh a 10.00yh	Uchafbwyntiau golygedig neu ddarllediad hwyr i ddechrau ddim yn hwyrach na 10.30yh
Rhwng 10.00yh a chanol nos	Hyd at 30 munud

1.19 Yn ogystal â'r uchod, rhaid i'r hawl i ddarparu sylwebaeth radio fyw ar y digwyddiad wedi ei chaffael gan orsaf radio gyda darllediad cenedlaethol neu sefydliad sy'n darparu gwasanaeth chwaraeon i orsafoedd radio sy'n ffurfio rhwydwaith cenedlaethol (neu led cenedlaethol).

1.20 Efallai y bydd sefyllfa yn codi pan na fydd ail wasanaeth yn gallu darparu neu'n anfodlon darparu darllediad eilradd digonol neu unrhyw ddarllediad eilradd o gwbl. Bydd Ofcom wedyn yn ystyried a fydd yn rhoi caniatâd ar gyfer darllediad byw neilltuedig heb ddarllediad eilradd a bydd yr un meini prawf neu debyg fel y nodir ym mharagraffau 1.13-1.17 yn cael eu gweithredu.

1.21 Dylai darlledwyr nodi bod caniatâd Ofcom yn ofynnol, dan y Ddeddf, ar gyfer darllediad byw neilltuedig o ddigwyddiadau Grŵp B hyd yn oed os yw'r gofynion safonol a nodir ym mharagraffau 1.18 ac 1.19 yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau hyn rhoddir caniatâd yn awtomatig.

Amgylchiadau pan na fydd cosbau yn cael eu rhoi efallai

1.22 Hefyd dan Adran 104 mae'n ofynnol i Ofcom roi arweiniad ar faterion y bydd yn eu hystyried wrth benderfynu a yw'n afresymol disgwyl i ddarparwr rhaglenni teledu gydymffurfio â'r cyfyngiadau ar ddarllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig ac felly a ddylid rhoi cosbau os na chedwir at y cyfyngiadau. Oherwydd y cyfnodau hir sydd yn gyffredinol ar gael i gynnig, gwerthu a chaffael yr hawliau, mae Ofcom yn credu bod yna ychydig iawn o amgylchiadau pan fydd yn rhesymol i ddarlledwr fynd ymlaen gyda darllediad neilltuedig heb ganiatâd Ofcom. Bydd angen i ddarlledwr sy'n mynd ymlaen i ddarlledu digwyddiad rhestredig byw heb ganiatâd Ofcom a lle nad yw hyn yn cydymffurfio ag Adran 101(1) argyhoeddi Ofcom, am resymau cyfreithlon, bod y cyfnod rhwng pan oedd yr hawliau ar gael a'r digwyddiad ei hun yn rhy fyr i gael y caniatâd hwn neu fod y darlledwr yn credu ei fod wedi cydymffurfio ond roedd y gred honno yn seiliedig ar wybodaeth ffug. Fodd bynnag, yn y sefyllfa ddiwethaf, bydd angen i Ofcom fod yn argyhoeddedig bod y darlledwr wedi cymryd pob cam rhesymol i fodloni ei hun bod darlledwr arall sy'n darparu gwasanaeth yn y categori arall wedi caffael yr hawliau.

Gofynion cysylltiedig â digwyddiadau dynodedig sy'n codi o'r Gyfarwyddeb AVMS

1.23 Mae caniatâd Ofcom yn ofynnol hefyd mewn rhai amgylchiadau cyn i ddarlledwr ddarlledu digwyddiad i Wladwriaeth arall yr AEE ac mae'r digwyddiad o dan sylw wedi cael ei ddynodi yn y Wladwriaeth honno.

1.24 Yn yr adran hon o'r Côd, mae gan "ddigwyddiad dynodedig" yr ystyr a briodolir iddo dan adran 101A o Ddeddf Darlledu 1996 (fel y diwygiwyd gan Offeryn Statudol 2000 Rhif 54). Dangosir y digwyddiadau a ddynodwyd hyd yn hyn gan Wladwriaethau eraill yr AEE yn Atodiad 3. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y darlledwyr yw gwirio, cyn caffael yr hawliau ac ym mhob achos cyn darlledu, a yw'r digwyddiad o dan sylw wedi cael ei ddynodi ac os felly, ar ba delerau. Mae'n bwysig pwysleisio y gall telerau'r dynodiad ymwneud â darllediad byw neu ohiriedig, neu'r ddau. Dylai darlledwyr hysbysu Ofcom eu bod wedi caffael yr hawliau i ddigwyddiad wedi'i ddynodi gan Wladwriaeth arall yr AEE cyn gynted ag y bydd hyn yn digwydd.

1.25 Mae caniatâd Ofcom ar gyfer yr hawl i i ddarlledu digwyddiad dynodedig yn ofynnol yn yr amgylchiadau a nodir yn adran 101B o Ddeddf Darlledu 1996, fel y diwygiwyd gan Offeryn Statudol 2000 Rhif 54. I grynhoi, mae caniatâd yn ofynnol lle mae cyfran sylweddol o gyhoedd Wladwriaeth yr AEE o dan sylw heb gyfle i ddilyn y digwyddiad hwnnw trwy ddarllediad byw neu ohiriedig ar deledu am ddim, fel y penderfynwyd gan y Wladwriaeth honno. Mae hyn yr un mor wir am unrhyw hawliau wedi'u caffael ar neu ar ôl y diwrnod y daeth y digwyddiad yn ddigwyddiad dynodedig. Dylid darllen y gofyniad hwn ar y cyd ag Erthygl 3a paragraff 3 o'r Gyfarwyddeb Darlledu Ewropeaidd.

1.26 Wrth benderfynu a ddylai roi caniatâd neu beidio ar gyfer hawliau i ddarlledu digwyddiad dynodedig, bydd Ofcom yn ystyried yr amgylchiadau lle cafodd yr hawliau eu caffael, er enghraifft

(a) a roddwyd cyfle i ddarlledwyr eraill gaffael yr hawliau ar delerau teg a rhesymol, ac yn wir a ydynt wedi ceisio gwneud hyn felly. Er enghraifft, hyd yn oed petai'r hawliau wedi'u caffael mewn proses arwerthu lle roedd darlledwyr am ddim sy'n cyrraedd cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn gallu cymryd rhan, efallai y bydd yn briodol i'r darlledwyr am ddim hyn gael cyfle arall i gaffael yr hawliau;

(b) sut y mae'r darlledwr yn cynnig gweithredu ar yr hawliau wedi'u caffael a'r camau a gymerir i geisio sicrhau bod cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn cael cyfle i ddilyn y digwyddiad;

(c) deddfwriaeth Gwladwriaeth yr AEE o dan sylw ac i ba raddau (os o gwbl) mae deiliad yr hawliau wedi ceisio cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno. Mae Ofcom yn ei ystyried yn ddymunol y dylai'r nawdd y mae digwyddiad dynodedig yn ei gael ystyried gymaint ag sy'n bosibl y system rheoleiddio sy'n briodol yng Ngwladwriaeth yr AEE sydd wedi dynodi'r digwyddiad;

(ch) ymarferoldeb camau a fyddai'n rhoi modd i ddeiliad yr hawliau gydymffurfio ag amcanion y Gyfarwyddeb Darlledu Ewropeaidd, sef darlledu'r digwyddiad ar deledu am ddim er mwyn i gyfran sylweddol o boblogaeth Gwladwriaeth yr AEE o dan sylw ei dderbyn;

(d) ffeithiau a materion eraill o'r fath y mae Ofcom yn eu hystyried yn berthnasol, yn yr amgylchiadau penodol sydd wedi codi, gan gynnwys y

ffeithiau a'r materion a nodir ym mharagraff 1.14 uchod i'r graddau sy'n briodol i ddigwyddiadau dynodedig.

1.27 Bydd Ofcom yn ymgynghori ar gais am ganiatâd mewn ffordd y mae'n ei hystyried yn briodol. Mae'n bosibl y bydd Ofcom yn ceisio, ac yn ystyried barn yr awdurdodau darlledu, y rheoleiddwyr economaidd a darparwyr gwasanaethau teledu eraill yng Ngwladwriaeth yr AEE sydd wedi dynodi'r digwyddiad.

1.28 Er nad yw'n ofynnol i awdurdodau mewn Gwladwriaethau eraill yr AEE ymgynghori ag Ofcom pan fydd un o'u darlledwyr wedi caffael hawliau neilltuedig i ddigwyddiad rhestredig y DU, mae'r Rheoliadau yn rhoi pŵer i Ofcom ddarparu gwybodaeth ynghylch hawliau i ddarlledu digwyddiadau rhestredig y DU y mae'n ei hystyried yn briodol i awdurdodau cymwys mewn Gwladwriaethau eraill yr AEE er mwyn rhoi modd i'r awdurdodau weithredu ar eu goblygiadau o dan y Gyfarwyddeb Darlledu Ewropeaidd i atal darlledwyr o dan eu hawdurdodaeth rhag mynd o'r tu arall i reolau digwyddiadau rhestredig y DU. Mae Ofcom yn ymwybodol o'r angen i barchu cyfrinachedd gwybodaeth y gallai gael ei darparu gan ddarlledwyr, er enghraifft am gaffael hawliau ac amserlenni rhaglenni. Ond, mae hefyd yn bwysig atal mynd o'r tu arall i reolau digwyddiadau rhestredig y DU. Bydd cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ar gael felly i'r awdurdodau perthnasol gan gynnwys a yw caniatâd wedi cael ei roi eisoes gan Ofcom ar gyfer darlledu'r digwyddiad byw, a yw darlledwyr wedi cwyno eu bod heb gael cyfle rhesymol i gaffael yr hawliau ac amcangyfrif o werth yr hawliau, ynghyd â gwybodaeth am sut y cyfrifwyd yr amcangyfrif hwn.

Gweithdrefnau ar gyfer ceisio caniatâd yn ymwneud â digwyddiadau rhestredig a dynodedig

1.29 Rhaid i gais am ganiatâd Ofcom ar gyfer darllediad byw neilltuedig o ddigwyddiad rhestredig neu ddynodedig gael ei wneud ar bapur i Ofcom gan y darlledwr sydd am ddarlledu'r digwyddiad ynghyd â rhesymau a chyfiawnhad llawn am y cais a'r holl wybodaeth atodol berthnasol. Dylid gwneud ceisiadau ddim llai na thri mis cyn dyddiad y digwyddiad. Mewn amgylchiadau pan fydd y darlledwr sy'n ceisio caniatâd yn caffael yr hawliau i'r digwyddiad dim ond o fewn tri mis o'r darllediad arfaethedig, bydd y cais am ganiatâd yn cael ei wneud o fewn saith niwrnod i'r hawliau gael eu caffael. Serch hynny, dylai darlledwr nad yw'n gallu bodloni'r terfyn amser o dri mis barhau i hysbysu Ofcom am gynnydd y trafodaethau. Dylai darlledwyr fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd Ofcom yn gallu ystyried ceisiadau am ganiatâd a dderbynnir yn agos iawn i'r dyddiad cau pan fydd y digwyddiad yn digwydd ac mewn amgylchiadau eithriadol efallai y bydd hyn yn golygu na ellir rhoi caniatâd.

1.30 Fel cam cyntaf o ystyried y cais, fel rheol bydd Ofcom yn cyflwyno hysbysiad cyhoeddus yn gwahodd darlledwyr, deiliad hawliau a phartïon eraill â diddordeb i wneud sylwadau ar y cais. Yn dibynnu ar yr ymateb i hwn ac unrhyw ymgynghoriadau eraill ac ar ymchwiliadau Ofcom i'r mater, efallai y bydd gofyn i'r ymgeisydd roi gwybodaeth ychwanegol ar bapur a/neu fynychu cyfarfod â staff Ofcom.

1.31 Bydd Ofcom yn ymateb mor fuan ag sy'n bosibl i unrhyw gais. Fel rheol, bydd Ofcom yn cyhoeddi ei benderfyniadau a'i resymau, ond, wrth wneud hyn felly, bydd yn rhoi sylw i ddiddordeb cyfreithlon y partïon o ran diogelu cyfrinachedd.

Atodiad 1

Digwyddiadau Chwaraeon Rhestredig y DU

GRŴP A

Y Gemau Olympaidd

Twrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd FIFA

Rownd Derfynol Cwpan yr FA

Rownd Derfynol Cwpan yr FA'r Alban (yn yr Alban)

Y Grand National

Y Derby

Rowndiau Terfynol Tenis Wimbledon

Twrnamaint Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop

Rownd Derfynol Cwpan Her Rygbi'r Gynghrair *

Rownd Derfynol Cwpan Rygbi'r Byd *

GRŴP B

Gemau Prawf Criced a chwaraeir yn Lloegr

Gemau Cyn y Rownd Derfynol yn Nhwrnamaint Wimbledon

Pob Gêm Arall yn Nhwrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan Rygbi'r Byd *

Gemau Gwledydd Prydain Twrnamaint Rygbi'r Chwe Gwlad †

Gemau'r Gymanwlad *

Pencampwriaeth Athletau'r Byd *

Cwpan Criced y Byd – y Rownd Derfynol, y Rowndiau Cynderfynol a Gemau sy'n Cynnwys Timau Gwledydd Prydain *

Y Cwpan Ryder *

Pencampwriaeth Golff Agored *

---

* Mae cyfyngiadau yn briodol i hawliau a gafaelir ar ôl 1 Hydref 1996 ac eithrio'r digwyddiadau hynny a nodir gyda seren. Y dyddiad perthnasol ar gyfer y rhain yw 25 Tachwedd 1997.

† Diwygiwyd y rhestr yn 2001 yn dilyn newid enw'r digwyddiad hwn i Dwrnamaint Rygbi'r Chwe Gwlad. Y dyddiad perthnasol ar gyfer y digwyddiad hwn felly yw 24 Ionawr 2001.

Atodiad 2

Rhestr o wasanaethau sy'n bodloni'r 'amodau cymhwyso' fel y nodir yn Rheoliadau Teledu 2000

Sianel 3 (ITV1)

Sianel 4

BBC 1

BBC 2

Sianel 5 (Five)

Atodiad 3

Digwyddiadau dynodedig yng Ngwladwriaethau eraill yr AEE o dan Erthygl 3a o'r Gyfarwyddeb Darlledu

AWSTRIA

- Gemau Olympaidd yr Haf neu'r Gaeaf
- Gemau Cwpan Pêl-droed y Byd FIFA (i ddynion) os yw tîm cenedlaethol Awstria yn chwarae, yn ogystal â'r gêm agoriadol, y rowndiau cynderfynol a rownd derfynol Cwpan Pêl-droed y Byd (i ddynion)
- Gemau pêl-droed Pencampwriaeth Ewrop (i ddynion) os yw tîm cenedlaethol Awstria yn chwarae, yn ogystal â'r gêm agoriadol, y rowndiau cynderfynol a rownd derfynol pêl-droed Pencampwriaeth Ewrop (i ddynion)
- Rownd Derfynol Cwpan Pêl-droed Awstria
- Pencampwriaethau Sgïo Alpaidd y Byd FIS
- Pencampwriaethau Sgïo Nordig y Byd
- Cyngerdd Blwyddyn Newydd Cerddorfa Ffilharmonig Fienna
- Dawns Opera Fienna

GWLAD BELG

- Gemau Olympaidd yr Haf (Cymuned Fflemeg: byw a chyda detholiadau. Cymuned Ffrangeg: byw a chyda detholiadau)
- Rownd Derfynol Cwpan Pêl-droed Gwlad Belg (dynion) (Cymuned Fflemeg: byw ac yn llawn. Cymuned Ffrangeg: byw ac yn llawn)
- Pob gêm sy'n cynnwys tîm pêl-droed dynion Gwlad Belg (Cymuned Fflemeg: byw ac yn llawn. Cymuned Ffrangeg: byw ac yn llawn)
- Twrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan Pêl-droed y Byd (dynion) (Cymuned Fflemeg: byw ac yn llawn. Cymuned Ffrangeg: byw ac yn llawn)
- Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop, rownd derfynol (dynion) (Cymuned Fflemeg: byw ac yn llawn. Cymuned Ffrangeg: byw ac yn llawn)
- Cynghrair y Pencampwyr, gemau sy'n cynnwys clybiau Gwlad Belg (Cymuned Fflemeg: byw ac yn llawn. Cymuned Ffrangeg: byw ac yn llawn)
- Cwpan UEFA, gemau sy'n cynnwys clybiau Gwlad Belg (Cymuned Fflemeg: byw ac yn llawn. Cymuned Ffrangeg: byw ac yn llawn)
- Tour de France, dynion, proffesiynol (Cymuned Fflemeg: byw a chyda detholiadau. Cymuned Ffrangeg: byw a chyda detholiadau)
- Liège-Bastogne-Liège (Cymuned Fflemeg: byw a chyda detholiadau. Cymuned Ffrangeg: byw a chyda detholiadau)

- Ras Amstel Gold (Cymuned Fflemeg: byw a chyda detholiadau. Cymuned Ffrangeg: byw a chyda detholiadau)
- Taith Flanders (Cymuned Fflemeg: byw a chyda detholiadau. Cymuned Ffrangeg: byw a chyda detholiadau)
- Paris-Roubaix (Cymuned Fflemeg: byw a chyda detholiadau. Cymuned Ffrangeg: byw a chyda detholiadau)
- Milan-San Remo (Cymuned Fflemeg: byw a chyda detholiadau. Cymuned Ffrangeg: byw a chyda detholiadau)
- Pencampwriaethau Beicio Ffordd Gwlad Belg, proffesiynol (dynion) (Cymuned Fflemeg: byw a chyda detholiadau. Cymuned Ffrangeg: byw a chyda detholiadau)
- Pencampwriaethau Beicio Ffordd y Byd, proffesiynol (dynion) (Cymuned Fflemeg: byw a chyda detholiadau. Cymuned Ffrangeg: byw a chyda detholiadau)
- Cofio Ivo Van Damme (Cymuned Fflemeg: byw ac yn llawn. Cymuned Ffrangeg: byw ac yn llawn)
- Fformwla 1 Grand Prix Gwlad Belg (Cymuned Fflemeg: byw ac yn llawn. Cymuned Ffrangeg: byw ac yn llawn)
- Y twrnameintiau tenis y Gamp Lawn canlynol: Roland Garros a Wimbledon, rowndiau gogynderfynol, cynderfynol a therfynol sy'n cynnwys chwaraewr o Wlad Belg (Cymuned Fflemeg: byw ac yn llawn. Cymuned Ffrangeg: byw ac yn llawn)
- Y Cwpan Davis a'r Cwpan Ffed, rowndiau gogynderfynol, cynderfynol a therfynol sy'n cynnwys tîm Gwlad Belg (Cymuned Fflemeg: byw ac yn llawn. Cymuned Ffrangeg: byw ac yn llawn)
- Cystadleuaeth Gerdd y Frenhines Elisabeth, y rownd derfynol (Cymuned Fflemeg: byw ac yn llawn. Cymuned Ffrangeg: byw ac yn llawn)

Digwyddiadau sy'n benodol i'r rhestr Ffrangeg

- La Flèche wallonne (byw a chyda detholiadau)
- Gemau Olympaidd y Gaeaf (byw a chyda detholiadau)
- Pencampwriaethau Athletau'r Byd (pan fydd athletwyr o Wlad Belg yn cymryd rhan, byw ac yn llawn)

Digwyddiadau sy'n benodol i'r rhestr Fflemeg

- Cynghrair y Pencampwyr: rowndiau terfynol a chynderfynol, byw ac yn llawn
- Cwpan UEFA: rowndiau terfynol a chynderfynol, byw ac yn llawn
- Beicio, Paris-Tours a Thaith Lombardy: byw a chyda detholiadau
- Pencampwriaeth Cyclo-cross Gwlad Belg a'r Byd, dynion, proffesiynol: byw ac yn llawn
- Y twrnameintiau tenis y Gamp Lawn canlynol: Pencampwriaeth Agored Awstralia a Phencampwriaeth Agored yr Unol Daleithiau, rowndiau gogynderfynol, cynderfynol a therfynol sy'n cynnwys chwaraewr o Wlad Belg, byw ac yn llawn

DENMARC

- Gemau Olympaidd yr haf a'r gaeaf: y gemau yn eu cyfanrwydd
- Pencampwriaeth pêl-droed y byd ac Ewrop (dynion): pob gêm pan fydd rhywun o Ddenmarc yn cymryd rhan ynghyd â rowndiau cynderfynol a therfynol
- Pencampwriaeth pêl-law y byd ac Ewrop (dynion a menywod): pob gêm pan fydd rhywun o Ddenmarc yn cymryd rhan ynghyd â rowndiau cynderfynol a therfynol
- Gemau rhagbrofol pencampwriaeth y byd ac Ewrop Denmarc mewn pêl-droed (dynion)
- Gemau rhagbrofol pencampwriaeth y byd ac Ewrop Denmarc mewn pêl-law (menywod)

Y FFINDIR

- Gemau Olympaidd yr Haf a'r Gaeaf, a drefnir gan y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol
- Gêm agoriadol, rowndiau gogynderfynol, cynderfynol a therfynol Cwpan Pêl-droed y Byd, a drefnir gan FIFA (Fédération Internationale de Football Association), a gemau tîm y Ffindir
- Gêm agoriadol, rowndiau gogynderfynol, cynderfynol a therfynol Pencampwriaethau Pêl-droed Ewrop, a drefnir gan UEFA (Undeb Cymdeithasau Pêl-droed Ewrop), a gemau tîm y Ffindir
- Pencampwriaethau Hoci Iâ'r Byd i ddynion, a drefnir gan y Ffederasiwn Hoci Iâ Rhyngwladol (IIHF)
- Pencampwriaethau Sgïo Nordig y Byd, a drefnir gan y Ffederasiwn Sgïo Rhyngwladol (FIS)
- Pencampwriaethau Athletau'r Byd, a drefnir gan Gymdeithas Ryngwladol Ffederasiynau Athletau (IAAF)
- Pencampwriaethau Athletau Ewrop, a drefnir gan Gymdeithas Athletau Ewrop (EAA)

FFRAINC

- Gemau Olympaidd y gaeaf a'r haf
- Gemau swyddogol tîm pêl-droed cenedlaethol Ffrainc yng nghalendr Fédération Internationale de Football Association (FIFA)
- Gêm agoriadol, rowndiau gogynderfynol, cynderfynol a therfynol Cwpan Pêl-droed y Byd
- Rowndiau cynderfynol a therfynol Cwpan Pêl-droed Ewrop
- Rownd derfynol Cwpan UEFA, pan fydd clwb o Ffrainc yn un o bencampwriaethau Ffrainc yn chwarae
- Rownd derfynol Cynghrair Pêl-droed y Pencampwyr
- Rownd derfynol Cwpan Pêl-droed Ffrainc
- Twrnamaint Rygbi'r Chwe Gwlad
- Rowndiau cynderfynol a therfynol Cwpan Rygbi'r Byd
- Rownd derfynol Pencampwriaeth Rygbi Ffrainc
- Rownd derfynol Cwpan Rygbi Ewrop, pan fydd clwb o Ffrainc yn un o bencampwriaethau Ffrainc yn chwarae
- Rowndiau terfynol gemau sengl dynion a menywod twrnamaint tenis Roland Garros

- Rowndiau cynderfynol a therfynol y Cwpan Davis a'r Cwpan Ffed, pan fydd tîm tenis Ffrainc yn chwarae
- Grand Prix Fformwla 1 Ffrainc
- Y Tour de France (beicio, dynion)
- Râs feicio Paris-Roubaix
- Rowndiau terfynol dynion a menywod Pencampwriaeth Pêl-fasged Ewrop, pan fydd tîm cenedlaethol Ffrainc yn chwarae
- Rowndiau terfynol dynion a menywod Pencampwriaeth Pêl-fasged y Byd, pan fydd tîm cenedlaethol Ffrainc yn chwarae
- Rowndiau terfynol dynion a menywod Pencampwriaeth Pêl-law Ewrop, pan fydd tîm cenedlaethol Ffrainc yn chwarae
- Rowndiau terfynol dynion a menywod Pencampwriaeth Pêl-law y Byd, pan fydd tîm cenedlaethol Ffrainc yn chwarae
- Pencampwriaethau Athletau'r Byd

YR ALMAEN

- Gemau Olympaidd yr haf a'r gaeaf.
- Pob gêm Pencampwriaeth Ewrop a Chwpan y Byd sy'n cynnwys tîm pêl-droed cenedlaethol yr Almaen, yn ogystal â'r gêm agoriadol, y rowndiau cynderfynol a therfynol, p'un a yw tîm yr Almaen yn chwarae neu beidio
- Rowndiau cynderfynol a rownd derfynol Cwpan FA yr Almaen
- Gemau cartref ac oddi cartref tîm pêl-droed cenedlaethol yr Almaen
- Rownd derfynol unrhyw gystadleuaeth clwb pêl-droed Ewrop (Cynghrair y Pencampwyr, Cwpan UEFA) pan fydd clwb o'r Almaen yn chwarae
- Pan fydd prif ddigwyddiadau yn cynnwys mwy nag un digwyddiad unigol, cyfrifir pob digwyddiad yn brif ddigwyddiad. Mae cynnwys neu hepgor digwyddiadau yn y darpariaethau hyn yn bosibl dim ond ar sail cytundeb a wneir gan yr holl Länder

IWERDDON

- Gemau Olympaidd yr Haf
- Rowndiau Terfynol Hyrli a Phêl-droed Rhyngsirol Uwch Iwerddon-gyfan
- Gemau rhagbrofol Iwerddon cartref ac oddi cartref yn Nhwrnameintiau Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop a Chwpan y Byd FIFA
- Gemau Iwerddon yn Nhwrnamaint Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop a Thwrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd FIFA
- Gemau agoriadol, rowndiau cynderfynol a rownd derfynol Twrnamaint Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop a Thwrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd FIFA
- Gemau Iwerddon yn Nhwrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan Rygbi'r Byd
- Grand National Iwerddon a Derby Iwerddon
- Cwpan y Cenhedloedd yn Sioe Geffylau Dulyn

YR EIDAL

- Gemau Olympaidd yr haf a'r gaeaf
- Rownd Derfynol Cwpan Pêl-droed y Byd a phob gêm sy'n cynnwys tîm cenedlaethol yr Eidal
- Rownd Derfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop a phob gêm sy'n cynnwys tîm cenedlaethol yr Eidal
- Pob gêm sy'n cynnwys tîm cenedlaethol yr Eidal, cartref ac oddi cartref, mewn cystadlaethau swyddogol
- Rownd derfynol a rowndiau cynderfynol Cynghrair y Pencampwyr a Chwpan UEFA pan fydd tîm o'r Eidal yn chwarae
- Cystadleuaeth feicio Giro d'Italia
- Grand Prix Fformwla 1 yr Eidal
- Gŵyl gerddoriaeth Eidalaidd San Remo

Atodiad B: Y rhestr ddiwygiedig o ddigwyddiadau a ddiogelir o dan Ran IV o Ddeddf Darlledu 1996

GRŴP A (Darllediad Byw Llawn wedi'i Ddiogelu)

Y Gemau Olympaidd

Twrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd FIFA

Twrnamaint Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop

Rownd Derfynol Cwpan yr FA

Rownd Derfynol Cwpan yr FA'r Alban (yn yr Alban)

Y Grand National

Y Derby

Rowndiau Terfynol Tenis Wimbledon

Rownd Derfynol Cwpan Her Rygbi'r Gynghrair

Rownd Derfynol Cwpan Rygbi'r Byd

GRŴP B (Darllediad Eilradd wedi'i Ddiogelu)

Gemau Prawf Criced a chwaraeir yn Lloegr

Gemau Cyn y Rownd Derfynol yn Nhwrnamaint Wimbledon

Pob Gêm Arall yn Nhwrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan Rygbi'r Byd

Gemau Gwledydd Prydain Twrnamaint Rygbi'r Chwe Gwlad

Gemau'r Gymanwlad

Pencampwriaeth Athletau'r Byd

Cwpan Criced y Byd – y Rownd Derfynol, y Rowndiau Cynderfynol a Gemau sy'n Cynnwys Timau Gwledydd Prydain

Y Cwpan Ryder

Pencampwriaeth Golff Agored

Y Meini Prawf ar gyfer Adolygiad 1998

Wrth ystyried a ddylai rhestru digwyddiad, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r rheoleiddwyr darlledu a deiliaid yr hawliau o dan sylw. Mae'r canlynol yn ffactorau y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylai rhestru digwyddiad. Er mwyn bod yn gymwys i'w restru, rhaid i'r digwyddiad fodloni'r prif feini prawf canlynol:

- Mae'r digwyddiad o ddiddordeb cenedlaethol arbennig, mae'n arwyddocaol i nifer fawr o bobl nid yn unig y rhai sydd fel arfer yn dilyn y gamp o dan sylw; mae'n ddigwyddiad sy'n uno'r genedl; digwyddiad a nodir ar y calendr cenedlaethol.

Mae digwyddiad o'r fath yn debygol o berthyn i un neu ddau o'r categorïau canlynol:

- mae'n ddigwyddiad cenedlaethol neu ryngwladol heb ei ail yn y gamp;
- mae'n cynnwys y tîm cenedlaethol neu gynrychiolwyr cenedlaethol yn y gamp o dan sylw.

Mae digwyddiad sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol yn debygol o gael ei ystyried ar gyfer y rhestr, ond nid yw rhestru digwyddiad o'r fath yn awtomatig. Mae'n fwy tebygol o gael ei restru os yw'n arddangos nodweddion penodol sy'n gwneud rhestru yn ymateb priodol, megis:

- mae'n debygol o ddenu cynulleidfa deledu fawr;
- mae ganddo hanes o gael ei ddarlledu'n fyw ar wasanaethau darlledu am ddim.

Wrth ystyried a ddylai rhestru digwyddiad o'r fath, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi sylw i ffactorau eraill sy'n effeithio ar gostau tebygol a manteision i'r gamp o dan sylw, i'r diwydiant darlledu ac i wylwyr, megis:

- a yw'n ymarferol cynnig darllediad byw llawn ar sianel gyffredinol – fel rheol ni fydd digwyddiadau estynedig, fel pencampwriaethau sy'n para tymor cyfan ac yn cynnwys sawl gêm, yn cael eu rhestru yn eu cyfanrwydd;
- effaith rhestru o ran gostwng incwm neu incwm posibl y gamp, a chanlyniadau'r gostyngiad hwnnw ar gyfer buddsoddi mewn cynyddu cyfranogiad a/neu wella lefelau perfformiad a/neu greu cyfleusterau diogel;
- effaith debygol rhestru ar y farchnad ddarlledu, gan gynnwys buddsoddi mewn darlledu chwaraeon yn y dyfodol, y lefel gystadlu a sefyllfa darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus;
- a oes trefniadau i sicrhau bod mynediad i'r digwyddiad ar gael i bob gwyliwr trwy uchafbwyntiau/darllediad hwyr a/neu sylwebaeth radio.

Wrth ystyried digwyddiadau i'w rhestru, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi mwy a mwy o sylw i'r ffactorau eraill hyn. Ni cheir ffactor unigol sy'n hawlio rhestru yn awtomatig fel ymateb, ac nid yw methiant i fodloni maen prawf unigol yn diarddel digwyddiad rhag cael ei ystyried.

Hefyd gallwn ddarparu dogfennau i ateb gofynion penodol pobl ag anableddau.

Ffoniwch 020 7211 6200 neu anfonwch e bost at enquiries@culture.gov.uk

Department for Culture, Media and Sport
© Hawlfraint y Goron
Ebrill 2009/PP1174

department for
culture, media
and sport

2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
www.culture.gov.uk